Rhaglen tystiolaeth marchnad lafur

# CYNGHORION DA ar gyfer dysgu o gyflenwi rhaglen

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau yma?

- **Gwneuthurwyr penderfyniadau**
- **Staff polisi**
- **Staff gwerthuso a data**
- **Staff cyflenwi**

## Pryd ddylwn i ddefnyddio'r canllawiau yma?

**Cam dylunio, cyflenwi parhaus ac yn dilyn rhaglen.**

*Mae adeiladu a rhannu gwybodaeth yn ganolog i ddatblygu rhaglenni gwaith ac iechyd effeithlon, ac i'r system gwaith ac iechyd yn ehangach. Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio, ar gyfer pwy, lle (yn cynnwys mewn gwledydd ac ardaloedd datganoledig), a pham.*

Dengys tystiolaeth o Greater Manchester Working Well a'r Health-led Trials sut y gall rhaglenni gryfhau cyfleoedd dysgu mewnol, adeiladu galluedd gwerthuso a rhannu dysgu yn fwy eang i wella canlyniadau dros gyfnod.

## CYNGOR DA: Adeiladu strwythurau a phrosesau sy'n cefnogi rhannu gwybodaeth ar draws staff a phartneriaid rhaglen.


Mae rhaglenni effeithlon yn creu cyfleoedd yn rheolaidd ar gyfer staff ar wahanol lefelau i adolygu a dehongli Gwybodaeth Rheoli a thystiolaeth gwerthuso gyda'i gilydd.

Dengys Greater Manchester Working Well bwysigrwydd ymgysylltu parhaus rhwng staff cyflenwi, rheolwyr rhaglen a phartneriaid strategol i adolygu perfformiad, adnabod heriau a chyd-ddylunio datrysiadau drwy fforymau a chyfarfodydd partneriaeth rheolaidd. Fe wnaeth hyn helpu llywodraethiant y rhaglen i esblygu a gwella dros gyfnod.

Mae rhaglenni sy'n cynnwys partneriaid lluosog hefyd yn cael budd o ddulliau dysgu ar y cyd. Daeth Working Well â phartneriaid o iechyd, cyflogaeth, sgiliau a llywodraeth leol ynghyd, gyda ffocws ar wella parhaus a galluogi rhannu a rhoi dysgu ar waith ar draws y rhaglen.

Dylai rhaglenni:

- **Greu gweithdai a fforymau dysgu rheolaidd** lle gall staff ystyried data gwerthuso a sut mae hyn yn cymharu gyda'u profiad.
- **Annog trafodaeth a dehongli canfyddiadau ar y cyd** rhwng lefelau gweithredol a strategol i helpu deall ymarfer a datrysiadau effeithlon i heriau sy'n dod i'r amlwg.
- **Cynnal gweithdai dysgu ar y cyd rhwng partneriaid** i rannu dysgu a datrys problemau.
- **Defnyddio partneriaethau i adeiladu sylfaen tystiolaeth o rennir** o 'beth sy'n gweithio' ar draws eu systemau, yn cynnwys adnoddau a llwybrau cyfeirio.
- **Rhoi cyfleoedd i weithwyr proffesiynol gyflwyno a rhannu eu profiadau eu hunain o 'beth sy'n gweithio'** wrth weithio gyda grwpiau allweddol e.e. drwy astudiaethau achos, sesiynau ymarfer myfyriol neu gymunedau ymarfer.



ies institute for employment studies

L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH

Department for Work & Pensions

## CYNGOR DA: Adeiladu capasiti a galluedd gwerthuso ar draws timau cyflenw.

Mae datblygu sgiliau a hyder staff wrth gasglu a dehongli data a gwerthuso Gwybodaeth Rheoli yn bwysig i sicrhau  ymgysylltiad cyson yn y gweithgareddau hyn. Mae hyn wedyn yn galluogi staff i roi dirnadaeth  data ar waith.

Dylai rhaglenni:

- **Rhoi hyfforddiant a chanllawiau i staff** ar gasglu, dehongli a defnyddio data.
- **Cyfathrebu diben a gwerth gweithgareddau gwerthuso yn glir**, a sut y cânt eu defnyddio yn ymarferol i wella gwasanaethau.

## CYNGOR DA: Cydnabod gwerth rhannu dysgu ac adroddiadau ymchwil, yn cynnwys 'beth sy'n gweithio' a 'beth oedd ddim yn gweithio'.

Mae rhaglenni effeithlon yn lledaenu dysgu a gwerthusiadau i gefnogi gwella system ehangach. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar gael yr adnoddau, capasiti a chyfeiriad i wneud hyn, a bod sefydliadau yn fodlon ei wneud mewn amgylchedd cyllid cystadleuol.

Dylai comisiynwyr:

- **Orfodi cyhoeddi adroddiadau gwerthuso gyda lefelau digonol o fanylion i ddarparu dysgu**.
- **Sicrhau fod adroddiadau yn cynnwys crynodebau o'r pethau allweddol a ddysgwyd, yn cynnwys beth oedd ddim yn gweithio**, fel y gellir rhannu y wybodaeth a gafwyd a'r gwersi yn fwy eang.
- **Cefnogi amgylchedd lle gellir rhannu gwybodaeth allweddol ar beth sydd yn/sydd ddim yn gweithio** nad yw'n cael effaith negyddol ar gyfleoedd darparwyr a phartneriaid o sicrhau cyllid cystadleuol yn y dyfodol.



Mae'r cynghorion da yma eu seiliedig ar dystiolaeth gwerthuso a ddynodwyd drwy Asesiad Cyflym o Dystiolaeth ar yr hyn sy'n galluogi dylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni gwaith ac iechyd lleol yn effeithlon.

Rhoddwyd graddiad hyder o dangosol – canolig i'r cynghorion da yn y canllawiau yma. Mae hyn yn golygu y seiliwyd y cynghorion da hyn ar dystiolaeth awgrymol ac na fedrir eu cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau. Mae hefyd yn golygu y cafwyd tystiolaeth o leiaf un astudiaeth gyda graddiad canolig yn defnyddio dull Asesu Ansawdd Tystiolaeth Cronfa Gwaddol Ieuenctid.